

**CYFARFOD CYN-YMCHWILIAD CORIDOR YR M4
SEFYDLIAD LYSAGHT, CASNEWYDD
18 GORFFENAF 2016**

Cyflwyniad

Agorodd yr Arolygydd, **Mr William Wadrup**, y Cyfarfod Cyn-ymchwiliad am 1pm trwy gyflwyno ei hun, **Mr Aidan McCooey**, yr Arolygydd Cynorthwyol a **Mrs Joanna Vincent**, y Swyddog Rhaglen.

Cymerodd oddeutu 200 o bobl ran mewn trafodaeth a sesiwn cyfnewid barn arwyddocaol a phellgyrhaeddol ynglŷn â'r Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus sydd ar ddod, y bwriedir iddo agor am 10.00am ar 1 Tachwedd 2016 yn **Sefydliad Lysaght**, Orb Road, Casnewydd.

Swyddog Rhaglen

Esboniwyd mai rôl y Swyddog Rhaglen oedd bod yn gyfrwng cyfathrebu rhwng partïon yr Ymchwiliad, cynghori ar faterion lle y ceir ansicrwydd, rheoli Llyfrgell yr Ymchwiliad a diweddarau'r wefan. Byddai'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru ac yn gweithio i'r ddau Arolygydd yn unig.

Ei manylion cyswllt yw: rhif ffôn symudol 07483 133975, e-bost joannavincent@personaassociates.co.uk.

Cyfeiriad y wefan benodedig yw <http://m4-newport.persona-pi.com/>.

Y Wasg a'r Cyfryngau

Byddai cyfleusterau ar gael i'r wasg yn yr Ymchwiliad, er y byddai'n amhriodol i'r Wasg neu'r Cyfryngau gysylltu â'r Arolygwyr. Gellir disgwyl rhywfaint o ddi-ddordeb gan y cyfryngau ar adegau amrywiol yn ystod yr Ymchwiliad, a gellid caniatáu ffilmio a recordio dim ond pe byddai pawb yn derbyn cynnig o'r fath a'i fod yn cael ei gynnal mewn ffordd nad yw'n ymwithiol nac yn fygythiol. Byddai'n cael ei atal pe byddai hynny'n digwydd.

Rhesymau dros y Cyfarfod Cyn-ymchwiliad a'r Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus

Esboniodd yr Arolygydd ddiben y Cyfarfod Cyn-ymchwiliad a'r Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus dilynol, a pham, o dan **Ddeddf Priffyrdd 1980**, **Deddf Caffael Tir 1981** a'r **Rheoliadau** perthnasol, y mae angen cynnal Ymchwiliad i'r achos dros gynllun arfaethedig a'r gwrthwynebiadau i'w Gynllun drafft a Gorchmynion Drafft, lle'r oedd gwrthwynebiad statudol yn dal i fod heb ei ddatrys. Esboniwyd cwmpas yr Ymchwiliad. Byddai'n:

- Ystyried yr achos dros adeiladu'r M4 arfaethedig a gwaith cysylltiedig.
- Ystyried y gwrthwynebiadau (ysgrifenedig neu'r rhai a fynegir ar lafar yn yr Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus) i'r cynigion a'r effaith niweidiol y byddai'n ei chael.

- Ystyried y Dewisiadau Amgen Strategol a gynigiwyd, neu a fyddai'n cael eu cyflwyno gan wrthwynebwyr erbyn y terfyn amser.
- Ystyried y Dewisiadau Amgen mwy lleol neu wedi'u targedu, o raddfa amrywiol.
- Ystyried unrhyw wrthddadleuon yn erbyn y dewisiadau amgen a amlygwyd.
- Archwilio'r Gorchmynion Drafft yn fanwl a'r ymatebion gan Gyrrff Statudol i'r Datganiad/au Amgylcheddol.
- Ystyried yr effeithiau ar Ymgymeriadau Statudol a ph'un a fyddai niwed difrifol i'w buddiannau.
- Ystyried y deunydd ysgrifenedig a gyflwynwyd yn dilyn cyhoeddi'r Cynllun drafft a'r Gorchmynion drafft.

Cynnal yr Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus

Wedi trafod, roedd pawb yn cytuno mai'r ffordd fwyaf effeithlon o gynnal yr Ymchwiliad, ar ôl i brif dystiolaeth y Llywodraeth a thystiolaeth Cefnogwyr gael ei chyflwyno, fyddai ar sail **pynciau cytunedig**, fel yr awgrymwyd gan yr RSPB ac Ymddiriedolaethau Bywyd Gwylt a Choetiroedd eraill, mewn gohebiaeth.

Diolchodd yr Arolygydd i'r sefydliadau a Llywodraeth Cymru am y ffordd broffesiynol a chadarnhaol yr awgrymwyd y mater ac y rhoddwyd sylw iddo. Byddai'r pynciau trafod yn galluogi casgliad o arbenigwyr i gadarnhau pwyntiau y cytunwyd arnynt o flaen llaw a chyflwyno'r gwahaniaethau sy'n weddill i'r Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus.

Cytunwyd y byddai Rhaglen yr Ymchwiliad yn ystyried y gwaith arolygu ecolegol tymhorol sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd, ac y byddai angen caniatáu amser i fyfyrion ar y canfyddiadau. Byddai Datganiad Amgylcheddol atodol yn cael ei gyhoeddi yn gynnar ym mis Medi 2016 a byddai angen amser i ystyried ei gynnwys.

Byddai'r Grwpiau o bynciau a awgrymwyd yn cynnwys:

- Trosolwg cyffredinol o'r cynllun.
- Tirwedd, treftadaeth ddiwylliannol a thir.
- Aer, sŵn a charbon.
- Ansawdd dŵr, materion llanw a llifogydd.
- Cynefinoedd ac Ecoleg.
- Llongau.
- Datblygu cynaliadwy.
- Llwybrau Amgen

Nododd **Ms Morag Ellis, QC** ar gyfer Llywodraeth Cymru, nifer y tystion arbenigol, yn gweithredu ar ran Llywodraeth Cymru, a fyddai'n rhoi dystiolaeth yn y sesiynau pwnc. Nododd yr RSPB y byddai Grwpiau Amgylcheddol yn ystyried amalgam o'u harbenigwyr ac yn cyfleu eu barn i'r Swyddog Rhaglen, a fyddai'n neilltuo amser yn y Rhaglen yn unol â hynny.

O ran gwrthwynebwyd sy'n dod o'r un lleoliad daearyddol, rhoddodd yr Arolygydd sicrwydd y byddai ymdrech yn cael ei gwneud i glywed tystiolaeth gan y cyfryw wrthwynebwyd, ar faterion cyffredin o bosibl, yn olynol, pe byddai hynny'n ymarferol. Byddai'r rhaglen yn cael ei rheoli i fod mor gyfleus â phosibl i'r rhai sydd â diddordebau tebyg.

Amlinellodd yr Arolygydd y materion nad ydynt i'w trafod mewn Ymchwiliadau Lleol, ac esboniodd pam. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Rhinweddau Polisi'r Llywodraeth, gan gynnwys rhagolygon cenedlaethol, dosbarthu cyllid y Llywodraeth, safonau dylunio cenedlaethol ac ati, sydd oll yn faterion i Seneddau Cenedlaethol ac nid ymchwiliadau lleol i gynlluniau lleol unigol.
- Materion Cyfreithiol. Os bydd unrhyw rai yn codi, mae'n rhaid eu cyflwyno'n ysgrifenedig. Byddent yn cael eu hatodi wrth Adroddiad yr Arolygydd.
- Materion Iawndal, nad ydynt yn faterion i ymchwiliadau lleol ond yn hytrach i'w cytuno rhwng y rhai hynny sy'n cynrychioli'r partïon neu i'w cyfeirio at y Tribiwnlys Tiroedd os na cheir cytundeb, a
- Rhinweddau cynigion trafnidiaeth unigol ymhell o Gasnewydd nad oes ganddynt unrhyw ddylanwad ar goridor yr M4 na'r traffig sy'n ei ddefnyddio, ond gallai dylanwad traffig y cyfryw gynllun ar y coridor fod yn briodol i'w ystyried pe byddai'n gwella neu'n bychanu'r dadleuon ar gyfer y cynllun.

Byddai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno 14 tyst ar ddechrau'r Ymchwiliad, a byddai'n cymryd oddeutu pythefnos i'w clywed. Gellid gofyn cwestiynau eglurhaol iddynt yn olynol ond nid eu croesholi, gan y byddai hynny'n digwydd yn ddiweddarach pan fyddai gwrthwynebwyd yn cael eu galw i gyflwyno eu hachosion. Oherwydd y niferoedd dan sylw, byddai'n hanfodol i wrthwynebwyd newydd roi gwybod i'r Swyddog Rhaglen neu Lywodraeth Cymru am enwau'r tystion yr hoffent eu croesholi er mwyn sicrhau y byddent yn bresennol ar y diwrnod perthnasol.

Roedd pawb a oedd yn bresennol yn derbyn y weithdrefn gyffredinol i'w dilyn yn yr Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus. I grynhoi, byddai'n cael ei seilio ar y dilyniant digwyddiadau dros dro canlynol, at ei gilydd:

- Bydd yr Arolygydd yn agor yr Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus ac yn cwblhau cofrestr o'r rhai a hoffai gyflwyno tystiolaeth maes o law.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn agor ei hachos.
- Bydd tystion Llywodraeth Cymru yn cael eu galw'n olynol a gellir gofyn iddynt egluro eu tystiolaeth wrth iddynt ei therfynu.
- Bydd cefnogwyr yn rhoi eu tystiolaeth, y gellir ei chroesholi gan wrthwynebwyd.
- Bydd cefnogwyr yn dirwyn eu hachosion i ben yn olynol.
- Bydd gwrthwynebwyd yn ymddangos i gyflwyno eu tystiolaeth, yn olynol, fel y pennwyd gan y Swyddog Rhaglen a, bryd hynny, cânt groesholi tystion Llywodraeth Cymru.
- Bydd tystion Llywodraeth Cymru yn cael eu hailholi, ac wedi hynny bydd y gwrthwynebwr yn cyflwyno ei achos. Caiff Llywodraeth Cymru, neu gefnogwyr, groesholi'r achosion hynny, ac ailholi y

gwrthwynebwr os yw'n bresennol. Bydd y gwrthwynebwr yn dirwyn ei achos i ben.

- Bydd pynciau'n cael eu rhaglennu a cheir croesholi tystion ac ati – bydd y nodwedd hon yn cael ei rhaglennu er mwyn sicrhau'r effeithlonrwydd mwyaf, gan ystyried yr angen i baratoi tystiolaeth ar ôl cwblhau gwaith arolygu.
- Bydd dewisiadau amgen yn cael eu cyflwyno'n olynol. Bydd hyrwyddwr y dewis amgen yn cyflwyno'r achos drosto ac yn cael ei groesholi yn ei gylch, a'i ailholi ac ati. Yna, bydd tystiolaeth wrthbrofi'n cael ei chyflwyno gan Lywodraeth Cymru a fydd yn destun croesholi ac ailholi (os cytunir, gellir gohirio holi Llywodraeth Cymru hyd nes y rhoddir tystiolaeth wrthbrofi). Wedi hynny, caiff hyrwyddwr y dewis amgen roi anerchiad i gloi.
- Gofynnir i wrth-wrthwynebwr gyflwyno eu tystiolaeth a chânt holi hyrwyddwr y dewis amgen ac ati.
- Ymdrinnir â gwrthbrofiadau a gohebiaeth ysgrifenedig sy'n weddill.
- Bydd hyn yn terfynu cam casglu tystiolaeth yr Ymchwiliad, a bydd yr Arolygydd yn gwahodd Llywodraeth Cymru i wneud ei datganiad i gloi (er y caniateid i achosion penodol gau'n rhannol yn gynharach yn yr Ymchwiliad).
- Bydd yr Arolygydd yn cau'r Ymchwiliad a bydd ymweliadau safle tywysedig yn cael eu cynnal.

Datganiadau Tystiolaeth

Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y byddai ei Datganiad Amlinellol a'i Datganiad Achos ar gael yn fuan, ond o ystyried y ffaith y byddai'r Datganiad Achos yn fanylach o lawer na'r Datganiad Amlinellol (gan ei gofleidio i bob pwrpas), a'r cyfnod hir iawn cyn dechrau'r Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus, awgrymodd fod angen cyhoeddi'r Datganiad Achos yn unig. Nid oedd unrhyw un yn anghytuno nac yn ystyried y byddai hynny'n niweidiol i'w buddiannau.

Mae'n rhaid cyflwyno pob datganiad tystiolaeth o leiaf **3 wythnos** cyn dechrau'r Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus (**11 Hydref**), ond dywedodd yr Arolygydd y byddai **4 wythnos** o flaen llaw yn fwy priodol o ystyried yr amser aros, a gofynnodd i gyfranogwyr gyflawni hyn pe byddai'n ymarferol (**4 Hydref**).

Y terfyn amser ar gyfer cyflwyno unrhyw ddewisiadau amgen a'u hegluro'n ddigon manwl er mwyn iddynt gael eu hamlygu'n ddigonol yw **2 wythnos** cyn dechrau'r Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus (**18 Hydref**). Byddai o fantais i'r rhai hynny sy'n gyfrifol am hysbysebu'r cyfryw ddewisiadau amgen petaent yn cael eu cyflwyno ynghynt.

Os oes blociau o dystiolaeth sy'n debyg, yn ailadroddus neu'n unfath, byddai'n ddefnyddiol pe gallai llefarydd sy'n cynrychioli'r dystiolaeth honno siarad ar ran sawl un. Ni fyddai grym y ddadl yn cael ei golli trwy ddull o'r fath.

Mae'n **rhaid** i unrhyw brawf tystiolaeth sy'n hwy na 1500 o eiriau gynnwys crynodeb, a'r crynodeb yn unig a ddarllenir yn yr Ymchwiliad. Gellir cyfeirio croesholi at y prawf tystiolaeth cyfan.

Bydd angen i'r ddau Arolygydd gael copi caled o bob dogfen a gyflwynir, copi caled arall ar gyfer llyfrgell yr Ymchwiliad a chopi electronig ar gyfer gwefan yr Ymchwiliad. Dylai'r rhain gael eu hanfon at y Swyddog Rhaglen a'u marcio'n eglur.

Bydd rhif cyfeirnod unigryw yn cael ei neilltuo i'r holl brofion tystiolaeth a gyflwynir ac a roddir ar adnau, neu ddogfennau a gyflwynir yn ystod yr Ymchwiliad. Bydd yr holl brofion tystiolaeth yn cael eu llwytho ar wefan yr Ymchwiliad fel bod pawb sy'n gysylltiedig yn gallu dilyn hynt yr Ymchwiliad. Wedi trafodaeth, cytunodd y cyfarfod yn unfrydol fod hyn yn ffordd foddhaol ac effeithlon o roi gwybodaeth i'r cyhoedd.

Trafodwyd y cyfleusterau sydd ar gael yn y lleoliad a chanfuwyd eu bod yn foddhaol. Ceir rhoi tystiolaeth yn Gymraeg a byddai cyfleusterau cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg yn cael eu darparu drwy gydol yr Ymchwiliad er mwyn annog hynny. Byddai cyfleusterau llun-gopiö ar gael a byddai ystafell dan glo yn cael ei neilltuo i'r gwrthwynebwyr. Mae dolen sain wedi'i gosod ac mae cyfleusterau tŷ bach a thramwyo i bobl anabl wedi'u lleoli ar y llawr cyntaf a'r llawr gwaelod. Cytunodd y cyfarfod fod natur ganolog y lleoliad yn foddhaol a'i fod yn cael ei wasanaethu'n dda gan fysiau rheolaidd a mynych.

Trafodwyd ymweliadau safle – dylai unrhyw un sy'n dymuno i'r Arolygwyr ymweld â rhan benodol o'r safle arfaethedig gysylltu â'r Swyddog Rhaglen yn ystod cyfnod yr Ymchwiliad neu cyn hynny. Roedd nifer o awgrymiadau eisoes wedi cael eu cyflwyno.

Cyfranogwyr yn yr Ymchwiliad a'r Rhaglen

Diolchodd yr Arolygydd i'r nifer sylweddol o gyfranogwyr a amlygodd eu hunain, ac esboniodd yn fras faint o amser y byddai ei angen i gyflwyno eu hachosion i'r Ymchwiliad. Roedd hyn yn ychwanegol at eraill a oedd yn absennol ond a oedd wedi ysgrifennu gan fynegi dymuniad i ymddangos yn yr Ymchwiliad. Ymddangosai fod yr holl geisiadau wedi'u seilio ar wrthwynebiadau perthnasol i bwnc yr Ymchwiliad. Byddai'r wybodaeth ddefnyddiol hon yn cael ei defnyddio i lunio drafft cyntaf y rhaglen i'w drafod yn gynnar yn yr Ymchwiliad. Roedd arwyddion cychwynnol o'r cyfarfod yn awgrymu y byddai angen tua 13 wythnos o amser ymchwilio i fodloni'r rhai hynny a oedd wedi rhoi amcangyfrif o'u gofynion, er y cydnabuwyd bod llawer o waith yn parhau ac y gallai trafodaethau rhwng y partion ddatrys materion yn y ffordd arferol. Byddai digon o amser ychwanegol yn cael ei gynnwys yn y rhaglen i ganiatáu ar gyfer yr ymagwedd seiliedig ar bynciau ac i ystyried y deunydd ysgrifenedig a gyflwynir.

O ystyried y nifer fawr o wrthwynebiadau Gorchymyn Prynu Gorfodol sydd heb eu penderfynu ar hyn o bryd, roedd yr Arolygydd o'r farn ei bod yn annhebygol iawn y gellid eu datrys i gyd cyn dechrau'r Ymchwiliad, er y

cydnabyddir bod cyngor ffurfiol yn gofyn am wneud ymdrech ddwys i ddatrys materion a bod swm y deunydd sy'n cael ei gynhyrchu ar hyn o bryd yn awgrymu bod rhywfaint o gynnydd yn debygol. Fodd bynnag, byddai'n ddoeth caniatáu amser yn yr Ymchwiliad i'r cyfryw faterion gael eu cyflwyno i'r Ymchwiliad.

Yn yr un modd, bydd digon o amser yn cael ei neilltuo i wrthwynebiadau Cyfoeth Naturiol Cymru, ond byddai angen adolygu hyn oherwydd trafodaethau difrifol parhaus â Llywodraeth Cymru.

Trafodwyd gwrthwynebiadau lleol a strategol, er enghraifft, ar ran Cyfeillion y Ddaear, a oedd wedi mynegi eu bod yn bwriadu ymddangos yn yr Ymchwiliad. Roedd yr Arolygydd o'r farn mai gwrthwynebiadau strategol yw'r rhain i'r angen am y cynllun. Byddai un diwrnod yn cael ei neilltuo dros dro i bob gwrthwynebiad o'r fath, ond gallai hynny gael ei ddiwygio pan fydd gwybodaeth ychwanegol ar ffurf Datganiadau wrth law.

Petaent yn dymuno, gallai gwrthwynebwyr ddibynnu ar y llythyrau gwrthwynebiad a gyflwynwyd eisoes (fel eu tystiolaeth), ond dylent egluro hynny wrth y Swyddog Rhaglen. Ni fyddai angen cyflwyno tystiolaeth newydd mewn amgylchiadau o'r fath.

Cytunwyd â **Mr Rhodri Price-Lewis QC** bod y gwrthwynebiad ar ran Roadchef House yn ddarostyngedig i gyd-drafodaethau parhaus ac y caiff ei ystyried yn ddiweddarach yn y rhaglen ochr yn ochr â'r gwrthwynebiad a gyflwynwyd gan Rontec Roadside Retail.

Gwnaeth **Mr Andrew Tait QC** y pwynt hefyd, o ganlyniad i ddatblygiadau parhaus ar ran Associated British Ports, y dylai eu gwrthwynebiad gael ei godi yn ystod rhan olaf yr Ymchwiliad ac y byddai'n fanteisiol pe byddai gwrthwynebiad Liberty Steel yn cael ei glywed ar adeg debyg.

Daeth y cyfarfod i ben am **4.40pm** wrth i'r Arolygydd ddiolch i bawb am eu sylw a'u cwrteisi a'r drafodaeth gadarnhaol a thrylwyr a oedd yn ddefnyddiol iawn wrth lywio'r ffordd ymlaen.

W Wadrup
AROLYGYDD